# A.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

A.1 Cynhaliwyd arolwg Cynefin Cam 1 o'r safle ac mae hwn wedi pennu beth yw cyflwr ecolegol a gwerth y cynefinoedd o fewn y safle. Ar yr un pryd ag y gwnaed hyn, cafodd arolygon ar gyfer rhywogaethau gwarchodedig megis adar, infertebratau a moch daear eu cynnal.

A.2 Mae'r arolygon yn tynnu sylw at y ffaith fod y safle, oherwydd ei dreftadaeth ddiwydiannol, yn cynnwys yn bennaf tir a ddatblygwyd yn flaenorol ac mai ychydig iawn o werth, os o gwbl, sydd gan y tir o safbwynt cynefinoedd a rhywogaethau. O amgylch y tir a ddatblygwyd yn flaenorol mae coed terfyn a choetir, gan gynnwys dwy ardal TPO, gyda llystyfiant a phrysgdir. Mae'r coetir terfyn, gan gynnwys yr ardaloedd TPO, yn cael eu cadw fel rhan o'r datblygiad. Mae cynigion y datblygiad yn cynnwys colli peth o'r coetir sydd o fewn rhan ogledd-orllewinol y safle, a gwrych sydd yno'n barod, ond bydd y rhan fwyaf o blanhigion coetir yn cael eu cadw a'u hychwanegu at drwy well rheolaeth a phlannu planhigion a choed newydd o fewn y safle ei hun.

A.3 Mae yna un safle o bwysigrwydd cenedlaethol yn agos at y safle, sef Beddmanarch-Cymyran, Ardal o Bwysigrwydd Gwyddonol Arbennig, sydd oddeutu 500m o'r safle. O gofio mor agos yw'r safle i'r arfordir, mae yna hefyd Ardal o Bwysigrwydd Gwyddonol Arbennig, SPA, a SAC Ynys Cybi oddeutu 2.5km o'r safle. Does dim traweffaith ar y safleoedd o bwysigrwydd hyn o'r datblygiad arfaethedig.

A.4 O safbwynt y rhywogaethau gwarchodedig, mae tystiolaeth o adar, infertebratau a moch daear ar y safle gyda chrynodeb ynghylch bob un isod:

- Adar - mae'r holl rywogaethau o adar a gofnodwyd ar y safle yn rhai sy'n gyffredin yng ngogledd Cymru a'r DU, ac nid oes unrhyw boblogaethau arwyddocaol sy'n gaeafu wedi'u cofnodi. Yn ystod y gwaith adeiladu, ac yn unol ag arfer gorau, bydd Clerc Gwaith Ecolegol (ECoW) ar y safle i fonitro unrhyw bosibilrwydd o darfu ar rywogaethau gwarchodedig a chynghori ar unrhyw fesurau lliniaru pe bai unrhyw amhariad yn digwydd.

- Infertebratau – mae'r safle'n cynnwys ardaloedd o gynefinoedd addas ar gyfer infertebratau, gan gynnwys ar gyfer Rhywogaethau Allweddol, ac yr ystyrir rhai ohonynt i fod yn rhywogaethau prin. Fodd bynnag, mae cyfansoddiad y rhywogaethau wedi crynhoi'n bennaf o amgylch ymylon y prysgdir/arwyneb glaswelltir, coetir a nodweddion tir gwlyb na fyddant yn cael eu heffeithio'n negyddol gan y datblygiad arfaethedig. Argymhellir sawl mesur er mwyn helpu i ddarparu cynefinoedd addas ar gyfer infertebratau, gan gynnwys plannu mewn ardaloedd fforio, ponciau ar gyfer glöynnod byw, glaswelltir parhaol a gwelliannau i'r gwlypdir.

- Moch Daear - mae tystiolaeth bod moch daear ar y safle o fewn y seilwaith gwyrdd presennol a bydd mesurau lliniaru yn cael eu darparu, yn unol gydag arfer gorau, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn.

A.4 Gan hynny, bydd traweffaith y datblygiad ar ecoleg ar y safle yn gyfyngedig, ac yn cael ei liniaru drwy gyfuniad o well rheolaeth ar y safle o'r nodweddion sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â phlannu a thirlunio newydd o fewn y safle fydd yn gwella safon ac amrywiaeth y cynefinoedd ar y safle ymhellach. Bydd ceisiadau materion a gedwir yn ôl yn cynnwys manylion am dirlunio ar y safle ac ar blotiau penodol a fydd, gyda'i gilydd, yn helpu i sicrhau bod mwy o lystyfiant yn gorchuddio'r ardal, gyda chynefinoedd gwlyb posib ychwanegol sydd â nodweddion draenio cynaliadwy.